**GRŴP FFRAMWAITH IECHYD A LLES ANIFEILIAID CYMRU**

**Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ym Mharc Cathays, Caerdydd ar 13 Medi 2016**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Peredur Hughes | Cadeirydd |
| Christianne Glossop | Prif Swyddog Milfeddygol Cymru |
| Huw Davies | |
| Jo Price | |
| Ifan Lloyd | |
| David Davies | |
| Moss Jones | |

**Llywodraeth Cymru**

| | |
|---|---|
| Carol Harris | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Janet Perry | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Elaine Hepple | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Gavin Watkins | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) (Eitem 4 a 5) |
| Alun Streeter | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) (Eitem 5) |
| Gareth Beili Jones | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) (Eitem 5) |
| Jackie Price | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) (Eitem 5) |
| Phillip Roberts | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) (Eitem 5) |

## **<u>Eitem Agenda 1: Croeso</u>**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i ddegfed cyfarfod y Grŵp. Eglurodd y Cadeirydd y byddai Jackie Price a Phil Roberts (Tîm TB) ac Alun Streeter a Gareth Beili Jones (Tîm Lles) yn ymuno â'r cyfarfod i drafod eu meysydd polisi eu hunain. Croesawodd y Cadeirydd Elaine Hepple hefyd i'r cyfarfod ac esboniodd ei bod wedi ymuno â'r Tîm Ysgrifenyddiaeth yn ddiweddar.

## **<u>Eitem Agenda 2: Cofnodion a Phwyntiau Gweithredu o 12 Mehefin</u>**

2. Eglurodd y Cadeirydd fod y cofnodion terfynol a phwyntiau gweithredu wedi eu diweddaru wedi cael eu e-bostio i Aelodau'r Grŵp fel rhan o'r papurau ar gyfer y cyfarfod hwn.

3. Cytunwyd fod cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir.

## **<u>Eitem Agenda 3: Diweddariad gan y Cadeirydd</u>**

4. Cafwyd y diweddariad canlynol gan y Cadeirydd:

**a) Y broses Penodiadau Cyhoeddus**

Esboniodd Peredur fod yr Ysgrifenyddiaeth wedi cwrdd yn ddiweddar â'r Ysgrifennydd Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig i drafod penodiadau cyhoeddus a Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru. Cadarnhaodd fod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi cytuno â'r cynllun penodiadau cyhoeddus a fydd yn awr yn cael ei ddatblygu gan yr Ysgrifenyddiaeth. Bydd y Grŵp yn cael ei hysbysu o'r datblygiadau.

**b) Cyfarfod â'r Ysgrifennydd Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar 23 Awst**

Eglurodd y Cadeirydd ei fod wedi cael cyfarfod ffurfiol â'r Ysgrifennydd Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar 23 Awst. Cafodd ei diweddaru ar waith y Grŵp, gan gynnwys lles anifeiliaid anwes, codi ymwybyddiaeth o Ymwrthedd i Gyffuriau (AMR) a bioddiogelwch ymhlith ffermwyr. Cafodd hefyd ei diweddaru ar gynnydd gyda BVD a'r Clafr.

Cadarnhaodd fod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi cytuno i gwrdd ag ef bod chwe mis a chadarnhaodd y byddai'n bresennol yn ystod rhan o gyfarfod nesaf y Grŵp ym mis Rhagfyr.

**c) Gweithdai BREXIT**

Eglurodd y Cadeirydd ei fod ef ac aelodau eraill o'r Grŵp wedi mynychu'r gweithdai. Cytunodd y Grŵp ei bod yn hanfodol fod iechyd a lles anifeiliaid yn cael ei ystyried fel rhan o'r trafodaethau hyn. Roedd y Grŵp yn cydnabod bod y sefyllfa'n un sy'n newid gyda llawer o ffactorau anhysbys a bydd ganddynt rôl allweddol i'w chwarae i ddatblygu'r ffordd ymlaen. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'n bresennol yn y ddau gyfarfod o amgylch y bwrdd nesaf â'r Ysgrifennydd Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig (3 a 21 Hydref). Roedd y Grŵp yn cytuno ar bwysigrwydd bwrw ymlaen â Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru ochr yn ochr â'r gwaith Brexit. Roeddent yn cytuno y byddai angen i oblygiadau Brexit gael eu hymgorffori yng ngwaith cynllunio'r dyfodol, yn y tymhorau byr a hir. Roedd y Grŵp hefyd yn cydnabod pwysigrwydd Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid yr UE a'r angen i gadw egwyddorion ac elfennau allweddol y gwaith hwn gan gynnwys rheolau mwy cyson ar gadw gwyliadwriaeth a dileu clefydau anifeiliaid, rheolau cliriach ar symud a chofrestru anifeiliaid a phwysleisio pwysigrwydd bioddiogelwch ac atal yn hytrach na gwella.

Cadarnhaodd Christianne fod Brexit yn awr yn eitem agenda safonol ar gyfer cyfarfodydd misol DU gyfan y Prif Swyddog Milfeddygol.

**d) Cyfarfod Arfaethedig y Pedwar Cadeirydd**

Eglurodd y Cadeirydd y bydd yn bresennol yng nghyfarfod y Pedwar Cadeirydd yng Nghaeredin ar 21 Medi. Dywedodd nad yw'r agenda wedi'i chadarnhau eto ond ei fod wedi gofyn bod BREXIT yn cael ei ychwanegu. Bydd y Grŵp yn cael adborth o'r cyfarfod.

.

**<u>Eitem Agenda 4: Diweddariad gan Christianne</u>**

5. Cafwyd trosolwg gan Christianne ar yr adroddiad Monitro Clefydau Rhyngwladol diweddaraf. Dau fater pwysig a oedd wedi'u cynnwys oedd y tafod glas a chlefyd y croen talpiog. Gofynnodd Huw sut y gellid cynnal yr un lefel o wyliadwriaeth ar ôl Brexit. Dywedodd Gavin fod hwn yn fater a nodwyd ganddo â'r Bwrdd Llywodraethu Gwyliadwriaeth Iechyd Anifeiliaid (AHSGB) fel un y dylid ei ystyried.

6. Cafwyd adborth gan Christianne ar yr arddangosiad bioddiogelwch a oedd yn cael ei redeg gan yr OCVO yn y Sioe Frenhinol. Bu hwn yn llwyddiant mawr. Eglurodd ei bod wedi ymweld ag adran y ceffylau i drafod bioddiogelwch ac roedd yn teimlo bod cyfle i gael trafodaeth ehangach ar y pwnc hwn. Dywedodd ei bod wedi awgrymu wrth APHA bod clefydau ceffylau'n cael eu cynnwys fel rhan o'u hymarferion cynlluniau wrth gefn. Roedd y Grŵp yn derbyn y penderfyniad a wnaethpwyd i beidio â chael cwningod yn y Sioe Frenhinol eleni oherwydd y perygl o Glefyd Gwaedlifol Cwningod a bod hyn yn enghraifft dda o ymddygiad cyfrifol.

7. Eglurodd Huw fod adroddiad wedi'i gyhoeddi ar Gymdeithasau a Sioeau Amaethyddol a chytunodd i'w ddosbarthu i aelodau'r Grŵp.

***Pwynt Gweithredu 1> Adroddiad ar Gymdeithasau a Sioeau Amaethyddol i gael ei ddosbarthu i aelodau'r Grŵp.***

8. Cafwyd diweddariad gan Gavin ar y Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Cynhyrchu Da Byw sydd wedi'i lleoli yng Nghaerfyrddin. Dywedodd Christianne bod hwn yn gam positif ymlaen i Gymru a bydd y gwaith yn parhau i hyrwyddo'r Ganolfan. Eglurodd fod cynhadledd wedi'i chynnal ym Mryste ym mis Gorffennaf. Dywedodd fod y Gynhadledd wedi bod yn un bositif iawn gydag ystod eang o randdeiliaid yn bresennol.

**<u>Eitem Agenda 5: Dilyn ar y drafodaeth ar flaenoriaethau Grŵp AHWF Cymru (sy'n cynnwys yr EU, gweithio mewn partneriaeth, BVD, AMR, y clafr a chloffni)</u>**

9. Bu'r Grŵp yn trafod rhai o'r prif flaenoriaethau a fydd yng Nghynllun Gweithredu AHWF Cymru 2016/17.

**Y Clafr**

10. Bu'r Grŵp yn ystyried yr adroddiad drafft ar ganlyniadau'r arolwg a gynhaliwyd gan Brifysgol Bryste a oedd yn edrych ar nifer yr achosion o'r clafr yng Nghymru. Dywedodd Jo fod yr adroddiad yn cynnwys negeseuon clir gan fod y canlyniadau'n debyg iawn i rai arolwg blaenorol a gynhaliwyd yn 2012. Cytunwyd ar y Pwyntiau Gweithredu canlynol.

***Pwynt Gweithredu 2> Christianne a swyddogion OCVO i gwrdd â thîm Cyswllt Ffermio i drafod prosesau i gynnwys negeseuon allweddol ar y clafr yn rhaglen Cyswllt Ffermio.***

***Pwynt Gweithredu 3>  Moss ac Ifan i ail-alw grŵp arbenigol yr arolwg i drafod canlyniadau'r arolwg ac i ddatblygu argymhellion ar gyfer gweithredu. Bydd y rhain wedyn yn cael eu trafod â Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Clafr.***

***Pwynt Gweithredu 4> Trefniadau ar gyfer cyflwyno a chyhoeddi'r arolwg i gael eu hystyried gan grŵp arbenigol yr arolwg a swyddogion OCVO.***

***Pwynt Gweithredu 5> Swyddogion OCVO i roi cyngor i'r* Ysgrifennydd Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig *ar ganlyniadau'r arolwg a chynnig ffordd ymlaen.***

**BVD**

11. Clywodd y Grŵp ddiweddariad gan Gavin. Eglurodd fod cyfarfodydd dal i fyny pob pythefnos yn cael yn cael eu cynnal â'r Is-grŵp BVD. Roedd cymeradwyaeth i'r cais am gyllid gan Bwyllgor Cymunedau Gwledig Lywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yn yr arfaeth ar gyfer Cam 1.  Mae hyn yn cynnwys elfennau fel sefydlu strwythur llywodraethu, cynllunio cyfathrebu, hyfforddi milfeddygon a chasglu data. Gofynnodd y Cadeirydd bod y Grŵp cael ei hysbysu o gynnydd.

***Pwynt Gweithredu 6> Yr Ysgrifenyddiaeth i ddiweddaru'r Grŵp ar gynnydd.***

**UE / Gweithio mewn Partneriaeth**

12. Eglurodd y Cadeirydd fod cais wedi'i wneud i'r Ysgrifenyddiaeth i lunio papur ar weithio mewn partneriaeth a sut y gellir cysylltu hyn â chynllunio ar gyfer AHWF Cymru a hefyd gwaith ar Brexit. Eglurodd Carol y byddai'r papur drafft yn cael ei ddosbarthu cyn hir a byddai sylwadau gan y Grŵp yn cael eu croesawu.

***Pwynt Gweithredu 7> Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu papur ar weithio mewn partneriaeth, ac aelodau'r Grŵp i gynnig sylwadau arno.***

**Cloffni defaid**

13. Diolchodd y Cadeirydd i Huw am ei bapur diweddaru ar gloffni defaid. Eglurodd Huw fod y gwaith hwn yn awr yn cael ei wneud mewn partneriaeth â Chyswllt Ffermio. Cytunodd y Grŵp fod rôl y milfeddyg yn hanfodol i lwyddiant y cynnig hwn. Cytunodd Huw i drafod y mater ymhellach â Chyswllt Ffermio.

***Pwynt Gweithredu 8>  Huw i drafod rôl milfeddygon â Chyswllt Ffermio.***

**AMR**

14. Cafwyd diweddariad gan Gavin ar waith sy'n cael ei wneud ar AMR.  Mae hyn yn cynnwys meithrin cysylltiadau â chydweithwyr Iechyd Cyhoeddus a datblygu cynigion i godi ymwybyddiaeth. Roedd y Grŵp yn cytuno mai ffermwyr a milfeddygon yw'r ddwy brif gynulleidfa bwysicaf. Awgrymwyd y dylid cysylltu ag Iechyd Cyhoeddus i ystyried negeseuon allweddol yn eu gwybodaeth am

anifeiliaid anwes a gwrthfiotigau. Eglurodd Jo fod mwy a mwy o ddiddordeb mewn rôl cŵn o fewn AMR gyda Phrifysgol Bryste'n dechrau ymchwilio i'r maes.

15. Eglurodd Gavin mai un o'r cynigion roedd yn eu hystyried oedd datblygu "Polisi Rhagnodi Cymru". Roedd y Grŵp yn teimlo bod hwn yn syniad da. Eglurodd Gavin mai maes arall mae bwlch yw casglu data ar y defnydd o wrthfiotigau ar ffermydd. Dywedodd y bydd yn mynychu'r Is-grŵp Iechyd a Lles Gwartheg ar AMR ar 15 Medi, pan fyddai'r mater yn cael ei drafod. Eglurodd Moss fod Cynhyrchwyr Cig oed ac Eidion Cymru (WLBP) wedi cyflwyno cais i Gymunedau Gwledig Lywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 am arian i ddatblygu proses i gasglu'r data hwn. Roedd hyn bellach yn fater cynyddol bwysig oherwydd pwysau gan fanwerthwyr i gael gwybod am y defnydd o wrthfiotigau.

**Pwynt Gweithredu 9>  Moss i siarad â Gavin am gynnig WLBP.**

16. Diolchodd Peredur i Gavin am ei ddiweddariad. Cytunodd Gavin y byddai'n parhau i gysylltu ag Ifan ar faterion AMR ac i ddiweddaru'r Grŵp o unrhyw gynnydd.

**<u>Eitem Agenda 6: Diweddariadau polisi gan TB a Lles</u>**

**Diweddariad ar TB**

17. Croesawodd y Cadeirydd Jackie Price a Phil Roberts i'r cyfarfod.

18. Cafwyd diweddariad ar TB gan Jackie. Eglurodd fod y Fframwaith Strategol ar gyfer TB yn dod i ben yn 2016, ac roedd gwaith wedi cychwyn i adnewyddu'r strategaeth. Eglurodd y bydd y Gweinidog yn gwneud datganiad llafar ar TB yn yr Hydref ac yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar y strategaeth ar ei newydd wedd.

19. Diolchodd y Cadeirydd i Jackie a Phil am eu diweddariad a chadarnhaodd y byddai'r Grŵp yn ystyried ac yn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus.

**Lles**

20. Croesawodd y Cadeirydd Gareth Beili-Jones ac Alun Streeter i'r cyfarfod. Diolchodd y Cadeirydd Gareth am ei bapur diweddaru ar Les Anifeiliaid mewn Trafnidiaeth. Bu'r Grŵp yn ystyried y dystiolaeth ychwanegol a geir yn y papur. Roeddent yn cytuno gan fod cyfran gyfartalog y defaid sy'n cyrraedd lladd-dai Cymreig yn llai nag 1 y cant o'r defaid sy'n cael eu lladd yng Nghymru, nid oedd angen gweithredu pellach. Fodd bynnag, roeddent yn cytuno bod angen monitro'r sefyllfa o hyn ymlaen, a phe bai nifer yr achosion yn cynyddu yna gellid adolygu'r sefyllfa ar yr adeg honno.

21. Cafwyd diweddariad gan Gareth ar y gwaith i ddiwygio'r Codau Ymarfer ar Les Anifeiliaid. Eglurodd fod y gweithgorau cyn ymgynghori'n awr yn edrych ar godau penodol. Y nod yw lansio ymgynghoriad cyhoeddus cyn diwedd y flwyddyn.

22. Cafwyd diweddariad gan Alun ar Berchnogaeth Gyfrifol. Dywedodd fod yr RSPCA wedi cynnal arolwg o berchnogaeth gyfrifol ar gŵn. Mae’r arolwg hwn yn cael ei weld fel sbardun i newid ymddygiad pobl ac mae wedi ei ymestyn i gynnwys Perchnogaeth Gyfrifol ar Anifeiliaid a heb ei gyfyngu i gŵn. Bydd angen gwneud y gwaith â chydweithwyr Llywodraeth Cymru mewn iechyd ac addysg

23. Roedd y Grŵp yn cytuno bod lles anifeiliaid yn bwysig dros ben a’i bod yn holl bwysig bod cynnydd yn cael ei wneud yn y meysydd gwaith hynny. Roeddent yn cytuno hefyd bod y gwaith i ddiwygio’r Codau’n gyfle ardderchog i ddatblygu cynllun cyfathrebu Cymru gyfan ar les anifeiliaid i ategu’r gwaith i newid ymddygiad pobl ac i godi safonau lles.

***Pwynt Gweithredu 10> Cydweithwyr lles i ystyried y posibilrwydd o ddatblygu cynllun cyfathrebu Cymru gyfan i hyrwyddo’r codau lles anifeiliaid diwygiedig a pherchnogaeth gyfrifol.***

24. Diolchodd y Cadeirydd i Gareth ac Alun am ddiweddaru’r Grŵp.

**<u>Eitem Agenda 7. Unrhyw Fater Arall</u>**

25. Hysbysodd Huw'r Grŵp fod Cynhadledd y Grŵp Iechyd a Lles Defaid yn cael ei chynnal ar 16 Tachwedd. Bydd y manylion yn cael eu rhannu â’r Grŵp.

***Pwynt Gweithredu 11> Yr Ysgrifenyddiaeth i anfon manylion am Gynhadledd y Grŵp Iechyd a Lles Defaid at aelodau’r Grŵp.***

26. Hysbysodd Ifan y Grŵp am waith i sefydlu clybiau iechyd defaid yng Nghymru. Dywedodd fod trafodaethau cychwynnol yn cael eu cynnal ac y byddai’n diweddaru’r Grŵp am y cynnydd.

27. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a chadarnhaodd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 15 Rhagfyr ym Mharc Cathays.

**CLOI**